

Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu

DYDDIAD: 8 Mehefin 2023

LLEOLIAD: Hybrid

TEITL: Canllawiau Pontio ar gyfer ysgolion a lleoliadau- model cymorth cynhwysol

PWRPAS YR ADRODDIAD: Darparu gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer ysgolion, lleoliadau a cholegau ar drefniadau pontio a chymorth cynhwysol effeithiol. Bydd y canllaw yn rhannu arferion da gan ddarparu arweiniad effeithiol, er mwyn cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i ffynnu, byw bywydau llawn ac ystyrlon, a dod yn aelodau a chyfranwyr gwerthfawr yn eu cymuned leol.

**RHESWM Y MAE'R
PWYLLGOR CRAFFU WEDI
GOFYN AM Y WYBODAETH
HON:** Er mwyn diweddarar'r Pwyllgor Craffu am y canllawiau pontio cynhwysol diweddar.

CEFNDIR:

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) Cymru yn rhan o'r rhaglen diwygio addysg ehangach yng Nghymru ac yn sicrhau darpariaeth o 0-25. Mae Ceredigion wedi ymrwmo i greu amgylchedd addysgol sy'n gynhwysol, yn meithrin gwytnwch ac yn hybu annibyniaeth, gan alluogi pob plentyn a pherson ifanc i ffynnu, byw bywydau llawn ac ystyrlon, a dod yn aelodau a chyfranwyr gwerthfawr yn eu cymuned leol. Bydd pontio'n llyfn trwy gydol eu gyrfa addysgol ac i fyd oedolion yn galluogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu potensial.

Mae hyn yn golygu y bydd plant a phobl ifanc:

- yn cael eu hanghenion holistig wedi'u nodi yn gynnar;
- yn cael cydnabyddiaeth i'w hannibyniaeth a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau;
- lle bo'n briodol, yn cael cymorth aml-asiantaeth mewn da bryd a'r cymorth hwnnw yn effeithiol wrth hyrwyddo eu hanghenion addysgol yn ogystal â'u lles personol; ac
- yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad yn sgil y ddeddf trawsnewid ADY gan roi ffocws ar arferion effeithiol o bontio yn ystod y tri cyfnod allweddol o bontio ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Cyfnod 1: Pontio yn y Blynyddoedd Cynnar
Cyfnod 2: Pontio o'r Cynradd i'r Uwchradd
Cyfnod 3: Pontio cynhwysol ôl 16

Mae'n darparu arweiniad ac yn rhannu arferion da o ran y gwahanol lefelau o gymorth fydd angen eu cynllunio yn unol ag anghenion dysgu yr unigolyn.

Yn unol a gweledigaeth gynhwysol Ceredigion, mi fydd anghenion y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael eu diwallu ar y lefel pontio cynhwysol. Pan fo cymhlethdod yr anghenion yn cynyddu, bydd y trefniadau ychwanegol ar bob lefel yn ymgorffori trefniadau'r lefel flaenorol. Bydd hyn yn sicrhau bod y plentyn a'r person ifanc yn trosglwyddo'n llyfn i ddiwallu lefel eu hangen unigol hwy.

Pan fo plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY yn symud yn annisgwyl i ysgol/lleoliad, dylai'r ysgol sy'n eu derbyn gynnal adolygiad cyn gynted â phosibl i sicrhau cynllunio darpariaeth sy'n diwallu'r anghenion a nodwyd. Dylai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol briodol fod wedi'i hadlewyrchu yng Nghynllun Datblygu Unigol (CDU) y plentyn/person ifanc.

Lefelau'r cymorth o bontio

Pontio cynhwysol:

Trefniadau pontio cynhwysol sydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yn ôl trefniadau lleoliad/ysgol.

Pontio wedi'i dargedu:

Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a phobl ifanc y nodwyd bod ganddynt angen sy'n dod i'r amlwg/angen dynodedig (wedi'i fonitro o fewn trefniadau presennol cyfan y lleoliad/ysgol).

Pontio wedi'i adolygu:

Cymorth wedi'i dargedu wrth adolygu'r pontio ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â CDU.

Pontio dwysach:

Cymorth dwysach i blant a phobl ifanc y nodwyd bod ganddynt lefelau anghenion difrifol, cymhleth, cyson a pharhaus.

Nid oes un ffordd unigol o gynllunio pontio. Bydd pob lleoliad a phob ysgol wedi datblygu dulliau pontio sy'n cyd-fynd â'u hethos, eu cyd-destun a'u diwylliant nhw eu hunain.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Mae'r ddogfen wedi'i datblygu gan nifer o gyfranwyr e.e. yr ysgolion, staff cynhwysiant Ceredigion gan gynnwys swyddogion ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar gyfer ysgolion ac yn adlewyrchu'r ffordd o weithio yn unol thrawsnewid ADY. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb gweithredu ar draws y Sir.



Canllawiau Pontio Ceredigion Transition
Ceredigion 2023.doc: Guidance 2023.docx

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam:

**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:

ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:

- i) Cytuno i fabwysiadu cynnwys y canllaw pontio ar gyfer ysgolion a lleoliadau Ceredigion.
- ii) Datblygu cysondeb gweithredu a phontio llyfn ar gyfer plant a phobl ifanc trwy gydol eu gyrfa addysgol ac i fyd oedolion, gan eu galluogi i gyrraedd eu potensial.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:

Er mwyn cydymffurfio â gofynion Trawsnewid ADY. Bydd y ddogfen yn sicrhau bod trefniadau pontio ar draws Ceredigion yn gyson gynhwysol ac o'r safon uchaf.

Enw Cyswllt: Gillian Evans
Swydd: Rheolwr Corfforaethol ADY, cynhwysiant a lles
Dyddiad yr adroddiad: Mehefin 8fed

